# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 24 Hydref 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) - Trafodion Cyfnod 2

(09.30 - 12.00)

Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru

Emma Gammon, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, dyma'r drefn ar gyfer trafodion Cyfnod 2: Adrannau 1 i 3; Teitl hir.

Mae dogfennau sy'n berthnasol i'r trafodion Cyfnod 2 ar gael ar dudalen we'r Bil.

**Bydd egwyl ar adeg briodol yn ystod y trafodion**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Papurau i'w nodi

(12.00)

### 3.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Hydref

(Tudalennau 1 – 3)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-29-19 – Papur i'w nodi 1

### 3.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Strategaeth Pwysau Iach: Cymru iach

(Tudalennau 4 – 5)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-29-19 – Papur i'w nodi 2

### 3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru

(Tudalennau 6 – 7)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-29-19 – Papur i'w nodi 3

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Iechyd Meddwl Amenedigol – Gwaith dilynol – trafod y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref

(12.00 – 12.30) (Tudalennau 8 – 25)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-29-19 – Papur preifat 1

## 6 Ymchwiliad i Addysg Heblaw yn yr Ysgol – trafod y dull casglu tystiolaeth

(12.30 – 12.45) (Tudalennau 26 – 33)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-29-19 – Papur preifat 2

CYPE(5)-29-19 - Papur i'w nodi 1

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-(P)/JM/5133/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

16 Hydref 2019

Annwyl Lynne,

Yn dilyn fy ymddangosiad o'ch blaen yn ddiweddar yn sesiwn y Pwyllgor ar 2 Hydref 2019, cytunais i ddarparu gwybodaeth bellach ichi i ychwanegu at yr atebion a roddwyd i rai o'ch cwestiynau.

Yn ystod trafodaethau, cadarnheais bod bron i 16,000 o blant ledled Cymru yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant erbyn diwedd mis Gorffennaf, a bod 29% ohonynt yn defnyddio darpariaeth mewn lleoliadau Cymraeg neu ddwyieithog. Gofynnwyd imi ddarparu niferoedd y plant sy'n defnyddio'r Cynnig mewn lleoliadau Cymraeg eu hiaith, heb gynnwys y lleoliadau dwyieithog.

Mae hyn yn rhywbeth yr hoffem ei wybod, ac rydym wedi bod yn ceisio cyfrifo'r nifer o'r setiau data tymhorol ar gyfer y Cynnig, sydd, er eu bod yn ddienw, yn cynnwys manylion hyd at lefel cofnodion unigol. Fodd bynnag, oherwydd y ffyrdd y cesglir data ar gyfer y Cynnig ar hyn o bryd gan y gwahanol systemau a ddefnyddir i'w weinyddu, a'r anawsterau o ran nodi iaith darpariaeth gofal plant, nid oes gennym ddarlun manwl gywir o ddarpariaeth 'Gymraeg' a 'dwyieithog' ar wahân ledled Cymru, a ddarperir drwy'r Cynnig Gofal Plant.

Rydym yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r awdurdodau lleol i wella'r data hyn ac i ddarparu darlun manylach o ran iaith o'r ddarpariaeth a gyflwynir drwy'r Cynnig yn y dyfodol.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y costau sydd ynghlwm â'r trefniant i CThEM weinyddu'r Cynnig, o'u cymharu â chost ei weinyddu gan awdurdodau lleol.

Yr amcangyfrif a ddarparwyd gan CThEM ar gyfer cost flynyddol cynnal y gwiriadau cymhwysedd oedd £2 filiwn y flwyddyn, gan gynnwys cefnogi'r system a chynnal llinell gymorth ddwyieithog. Yr amcangyfrif o gost bresennol gwasanaeth cyfatebol gan awdurdodau lleol yw £1 filiwn, ar sail 40% o amser yr awdurdodau gweithredu'n cael ei dreulio ar y rhan hon o'r gwasanaeth. Y prif wahaniaeth yn lefel y gwasanaethau a ddarperir am yr arian yw y bydd rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth o'u cyflogau o dan y drefn bresennol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ac na fyddai angen i rieni cyflogedig wneud hyn pe byddem yn defnyddio system CThEM. Byddai rhaid nodi manylion rhieni hunangyflogedig, a rhieni ag amgylchiadau anarferol eraill, â llaw ni waeth pa system a ddefnyddir. Amcangyfrifodd yr Achos Busnes y byddai gwahaniaeth o tua £0.4 miliwn o ran cost amser i rieni, o ofyn iddynt lanlwytho manylion cyflog safonol â llaw.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ynghylch cyfraddau defnyddio cynigion gofal plant Dechrau'n Deg. Cyn ateb yr ymholiad ynghylch cyfraddau defnyddio, efallai y bydd o gymorth i'r Pwyllgor os ydw i'n nodi gweithdrefn rheoli cyfrifon blynyddol Dechrau'n Deg.

Mae pob Awdurdod Lleol yn cyflwyno cynllun cyflenwi Dechrau'n Deg cyn cael cadarnhau eu dyraniad grant am y flwyddyn yn ffurfiol. Mae Rheolwyr Cyfrif yn craffu ar y cynlluniau hyn ac yn cytuno arnynt, fel cofnodion ffurfiol o fwriad rhaglen flynyddol yr Awdurdod Lleol o ran cyflenwi.Ym mis Gorffennaf, cyhoeddir bwletin ystadegol blynyddol Dechrau'n Deg sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu data flwyddyn wrth flwyddyn. Mae cyfarfodydd cyfrif ffurfiol ag Awdurdodau Lleol yn digwydd ym mis Tachwedd fel rheol, ac maent yn cyd-fynd â chyhoeddi data Tymor 1 Dechrau'n Deg. Defnyddir y setiau data hyn mewn cyfarfodydd cyfrif i nodi tueddiadau, materion sy'n destun pryder ac arfer da, ochr yn ochr â nodi cynnydd. Os oes pryderon sylweddol ynghylch cyflenwi, bydd trafod pellach rhwng Rheolwyr Cyfrif a thimau Dechrau'n Deg lleol.

Ac ystyried pryderon penodol y Pwyllgor ynghylch cyfraddau defnydd gofal plant Dechrau'n Deg, mae fy swyddogion wedi gofyn i siroedd Ceredigion a Dinbych am eglurhad pellach cyn cynnal unrhyw waith monitro ffurfiol. Fel y soniais yn ystod y sesiwn dystiolaeth, mae amrywiaeth o ffactorau sydd efallai'n dylanwadu ar faint o ddefnydd a wneir o'r gwasanaeth ac, o ran yr Awdurdodau Lleol dan sylw, mae'r rhain yn cynnwys natur symudol rhai teuluoedd a dewis teulu p’un a ydynt am elwa ar y cynnig gofal plant ai peidio.

Yn olaf, bu trafodaeth yn y Pwyllgor ynghylch gwaith Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar. Roeddwn eisiau manteisio ar y cyfle hwn i ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, ac i roi syniad ichi o'r amserlen.

Fel y soniais yn ystod sesiwn y Pwyllgor, mae wyth BGC yn cynnal rhaglenni gwaith i sefydlu beth sydd ei angen er mwyn creu system ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn lleol sy'n fwy ymatebol a chydgysylltiedig. Maen nhw'n canolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau, cynllunio, comisiynu a'r ffordd orau o nodi anghenion ac o fynd i'r afael â nhw.

Megis dechrau mae'r rhaglen ac mae'r awdurdodau braenaru ar gamau gwahanol yn ei datblygiad. Bydd gwaith yr awdurdodau braenaru yn helpu i lunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer trawsnewid y blynyddoedd cynnar, drwy brofi beth yw elfennau creiddiol system. Bydd y gwaith hwn, ynghyd â gwerthusiad o'r rhaglen a gychwynnodd ym mis Medi ac a fydd yn cymryd o leiaf 12 mis i'w gwblhau, yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn Gywir

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 3.2

**CYPE(5)-29-19 - Papur i'w nodi 2**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2058/19

Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cadeirydd
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd,

Yn sgil eich diddordeb yn yr ymgynghoriad a datblygiad Pwysau Iach: Cymru Iach, roeddwn am roi gwybod i chi y bydd y strategaeth derfynol yn cael ei lansio ar 17 Hydref 2019.

Mae Pwysau Iach: Cymru Iach, sef ein strategaeth hirdymor i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru yn gasgliad o safbwyntiau ein rhanddeiliaid, tystiolaeth ac ymchwil ryngwladol. Mae'r Strategaeth yn gynllun 10 mlynedd i leihau ac atal gordewdra ar gyfer pobl Cymru. Er mai fi yw'r Gweinidog sy'n arwain, mae'r cynllun hirdymor hwn yn mabwysiadu dull trawslywodraethol a thraws-sector o fynd i'r afael â gordewdra.

Mae gordewdra yn fater cymhleth, ac ni all y Llywodraeth na'r Gwasanaeth Iechyd ei ddatrys ar eu pennau eu hunain; mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai gweithio mewn partneriaeth ar draws systemau cyfan yw'r unig ffordd o sicrhau newid cadarnhaol. Yn unol â neges Cymru Iachach, dyma'r tro cyntaf y mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydlynol o fynd i'r afael â gordewdra, ac mae'r amrywiaeth o gynigion yn dangos sut y gellid addasu rhaglenni a dulliau presennol, gan atgyfnerthu trefn lywodraethol ac arweinyddiaeth.

Mae pedair thema'r Strategaeth yn dangos y dull system gyfan y bydd ei hangen er mwyn mynd i'r afael â gordewdra, gan gydnabod bod yr amgylchedd ffisegol a bwyd yn dylanwadu ar ein dewisiadau. Maent yn cynnwys ystyried sut y gellir dod ag ymyriadau mewn meysydd fel trafnidiaeth, cynllunio, y blynyddoedd cynnar, cymunedau a gwasanaethau iechyd ynghyd i ddatblygu dull cydlynol.

Bydd 5 cynllun cyflawni dwy flynedd o hyd yn cyd-redeg ag oes y strategaeth. Bydd y cynllun cyflawni cyntaf ar gyfer 2020-2022 yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2020, ac yn rhoi manylion yr union gamau gweithredu a gynigir er mwyn gweld newidiadau mewn ymddygiadau ac arferion y boblogaeth, sy'n cael eu hannog a'u hyrwyddo gan ein lleoliadau a'n hamgylchedd, a thrwy arweinyddiaeth leol a chenedlaethol. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn dechrau datblygu polisi a deddfwriaeth, a byddaf yn cyflwyno cyllid newydd i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

helpu i gyflawni ein hamcanion. Bydd hyn yn ein galluogi ni a'n partneriaid i ganolbwyntio'n fwy ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar drwy'r holl systemau fel rhan o'n huchelgais i adeiladu Cymru iachach. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu denu cymaint o gyllid ychwanegol â phosibl a chyfleoedd i ysgogi newid ymhlith ein partneriaid, i weld newid yn y ffordd rydym yn defnyddio cyllid i sicrhau ataliaeth.

Mae cefnogaeth gref i'r cynigion rydym wedi'u hamlinellu yn y strategaeth, ynghyd ag egni a chefnogaeth o fewn ein cymunedau tuag at newid cadarnhaol mewn ffordd o fyw. Rydw i am sicrhau bod ein strategaeth yn datgloi'r potensial hwn. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth trawsbleidiol a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd y mater hwn. Rydw i'n bwriadu gwneud datganiad pellach ar y Strategaeth yn y siambr yr wythnos nesaf.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**Julie Morgan AC**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Hydref 2019

Annwyl Julie,

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar**

Rydym yn ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiwn graffu gyhoeddus a gynhaliwyd ar **2 Hydref 2019** i drafod gwaith Llywodraeth Cymru ar Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar. Rydym yn ddiolchgar i chi, ac i'r Gweinidog Addysg, am eich ymgysylltiad parhaus â gwaith y Pwyllgor yn y maes pwysig hwn, ac am eich llythyr dyddiedig **16 Hydref** yn rhoi rhagor o wybodaeth ar faterion manwl a gododd yn ystod ein sesiwn.

Yn ystod y Cynulliad hwn, mae materion yn ymwneud ag Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar wedi codi'n aml fel rhan o waith craffu, yn fwyaf nodedig fel rhan o'n **hymchwiliad i elfennau allgymorth Dechrau'n Deg** , a'n gwaith craffu ar y **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) a'r cynnig gofal plant**. Rydym yn cydnabod bod nifer o gynlluniau peilot perthnasol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, a bod y cyfrifoldeb am y maes hwn yn rhychwantu eich portffolio chi a'r Gweinidog Addysg. Rydym hefyd yn cydnabod cymhlethdod y sefyllfa bresennol o ran Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru y gwnaethoch gyfeirio ati yn ystod ein sesiwn ddiweddaraf.

O ystyried yr hyn a nodir uchod – yn enwedig natur hynod gymhleth maes polisi Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar – credwn fod angen datganiad cliriach o ran gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar fel mater o flaenoriaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd yn erbyn eich gweledigaeth, a bydd yn darparu fframwaith cliriach lle rydym yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei pholisi, ei deddfwriaeth a'i gwariant yn y maes hanfodol hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn ymateb cyn ein sesiwn graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 (4 Rhagfyr 2019) i lywio ein gwaith.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon